



# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

## Rhaglen Waith 2019-20

Mae Strategaeth y Comisiynydd – Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i heneiddio – yn nod tair blaenoriaeth allweddol y bydd y Comisiynydd yn cyflawni amrywiaeth o waith arnynt yn ystod y tair blynedd nesaf:

- Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed
- Atal cam-drin pobl hŷn
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Dyma'r gwaith y bydd y Comisiynydd yn ei gyflawni ar gyfer pob o'r blaenoriaethau yn ystod 2019-20.

## Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed

- Cynnal ymgyrch i dynnu sylw at, a mynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran 'bob dydd' syn wynebu pobl hŷn.
- Cyhoeddi adnoddau newydd fydd yn rhoi'r grym i bobl hŷn herio gwahaniaethu ar sail oedran.
- Ymchwilio i'r portread o bobl hŷn yn y cyfryngau.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu'r gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y maen nhw'n eu darparu er mwyn canfod a hyrwyddo arferion da.

## Atal cam-drin pobl hŷn

- Ymchwilio i benderfyniadau'r heddlu a Gwasanaeth Eryl y Goron mewn perthynas ag ymchwiliadau diogelu.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ganfod beth sy'n ysgogi unigolion i gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn.
- Darparu hyfforddiant diogelu i weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill.
- Canfod, mapio ac amlygu gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

## Galluogi pawb i heneiddio'n dda

- Cyhoeddi adnoddau newydd i rymuso pobl hŷn i greu newid o fewn eu cymunedau.
- Gweithio gyda chymunedau, awdurdodau lleol a busnesau ledled Cymru i'w cefnogi i fod yn fwy ystyriol o oedran.
- Edrych i weld a yw'r opsiynau trafndiaeth presennol yn rhwystro mynediad at wasanaethau iechyd.
- Gweithio gyda phobl hŷn a darparwyr trafndiaeth er mwyn gwneud gwasanaethau trafndiaeth yn fwy ystyriol o oedran

## Gwaith parhaus ehangach

Ynghyd â'r gwaith a amlinelli'r uchod, bydd y Comisiynydd yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn adnabod, dathlu a hyrwyddo arferion da; monitro a chraffu ar waith cyrff cyhoeddus a'u dwyn i gyfrif pan fo angen; dylanwadu ar bolisi ac arfer yn genedlaethol ac yn lleol; ymgysylltu a phobl hŷn yn eu holl amrywiaeth; a darparu help a chymorth i bobl hŷn trwy ei gwasanaeth gwaith achos.